# Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Efelychu Aml-Broffesiynol mewn Iechyd a Gofal 2025

Fersiwn 1.3

Wedi'i gyd-ddatblygu gan y Pedair Gwlad *(Addysg a Gwella Iechyd Cymru, NHS England, NHS Education for Scotland* a'r *Northern Ireland Medical and Dental Training Agency)*, y Swyddfa Efelychu Genedlaethol, Iwerddon, a'r Gymdeithas Ymarfer Efelychu mewn Gofal Iechyd (ASPiH).

## Cynnwys

Fframwaith Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Efelychu Aml-Broffesiynol mewn Iechyd a Gofal 2025 .......... 1
Trosolwg ar y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol .......... 3
Matrics y Fframwaith .......... 5
Y Parth Ymarfer Addysgol: Disgrifyddion .......... 7
Y Parth Ymarfer Trawsnewidiol: Disgrifyddion .......... 11
Y Parth Ymarfer Technolegol: Disgrifyddion .......... 15
Y Parth Ymarfer Ysgolheigaidd: Disgrifyddion .......... 19
Y Parth Ymarfer Arweinyddiaeth: Descriptors .......... 22
Geirfa'r Fframwaith .......... 25
Dogfennau Cyfeiriol .......... 28
Cydnabyddiaeth .......... 29

## Trosolwg ar y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol

Mae'r fframwaith datblygiad proffesiynol hwn wedi'i gyd-ddatblygu i dywys a chefnogi cynnydd gallu mewn ymarfer ar sail efelychu yn y maes iechyd a gofal, ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a thu hwnt. Mae wedi'i ddylunio ar gyfer unrhyw un sy'n rhan o ymarfer efelychu gan gynnwys efelychwyr academaidd ac ymarfer, technolegwyr, ymchwilwyr, rheolwyr ac arweinwyr, ac yn berthnasol ar draws amrywiol leoliadau. Mae'n darparu strwythur cyffredin a chyfres o ganlyniadau i gynorthwyo unigolion, sefydliadau a systemau i ddod o hyd i, a chreu, arbenigedd ar draws pum maes ymarfer efelychu: Addysgol, Trawsnewidiol, Technolegol, Ysgolheigaidd, ac Arweinyddiaeth.

Ar sail model cynnydd tair haen – Darganfod, Twf, ac Aeddfedrwydd, wedi'i addasu o waith Cheng et al., 2020[2], mae'r fframwaith yn pwysleisio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) drwy adlewyrchu mwy o ddyfnder, annibyniaeth a dylanwad strategol ym mhob parth. Ni fwriedir iddo fod yn offeryn diwyro na rhagnodi gofynion - dylai fod yn adnodd hyblyg sy'n cefnogi hunan-fyfyrio a thwf proffesiynol gan oleuo datblygiad y gweithlu, dyluniad cwricwlwm a llwybrau arweinyddiaeth.

Er bod y parthau ymarfer wedi'u cydgysylltu'n ymarferol, cawsant eu gwahanu er eglurder ac i dynnu sylw at bwysigrwydd pob maes cysyniadol fel y gall ymarferwyr ganolbwyntio ar y maes mwyaf perthnasol i'w rolau a gweithgareddau. Mae'r parthau ymarfer yn cynrychioli gwahanol ddefnyddiau o ymarfer efelychu, yn lle meysydd arbenigedd hierarchaidd.

Er enghraifft, gellir defnyddio efelychu i gefnogi addysg neu i greu newid systemau a mewnwelediad sefydliadol. Mae'r ymarfer Addysgol yn canolbwyntio ar efelychu a ddyluniwyd i gefnogi dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer unigolion a thimau. Mae ffocws yr ymarfer Trawsnewidiol ar efelychu er mwyn creu mewnwelediad, hwyluso ymgysylltu ac arloesi sefydliadol, a newid ar lefel system neu ddiwylliant, yn aml i oleuo ail-ddylunio, gwella neu arloesi gwasanaeth. Mae'r parthau yma'n cynrychioli defnyddiau ymarfer efelychu sy'n ategu ei gilydd yn hytrach na lefelau arbenigedd hierarchaidd.

Ategir y fframwaith gan bedwar gwerth craidd, a ddiffinnir gan Safonau ASPiH ar gyfer Ymarfer Ar Sail Efelychu[1]: Diogelwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Cynaliadwyedd a Rhagoriaeth. Mae'r gwerthoedd hyn yn egwyddorion i dywys pob agwedd ar ymarfer efelychu. Mae'r canlyniadau yn y fframwaith wedi eu strwythuro'n fwriadol i adlewyrchu a hyrwyddo'r gwerthoedd hyn, gan sicrhau bod y gweithgareddau efelychu'n ddiogel, teg, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac o ansawdd ac effaith uchel. Fe'i

dyluniwyd hefyd i fod yn fwriadol gynhwysol gyda chanlyniadau wedi eu diffinio gan sgiliau ac arbenigedd yn hytrach na rolau penodol. Mae hyn yn ei wneud yn hygyrch a pherthnasol i bob unigolyn, proffesiwn a chefndir gan sicrhau y gall pob ymarferydd ganfod llwybr ar gyfer twf o fewn y fframwaith. Credwn y daw arbenigedd o brofiadau amrywiol ac mae'r fframwaith hwn yn adlewyrchu'r egwyddor graidd hon.

I sicrhau ei fod yn gydlynus â safonau efelychu, mae'r fframwaith hwn yn cysoni ei derminoleg â Safonau ASPiH[1], i gefnogi iaith broffesiynol gyffredin a chysondeb ar draws y DU ac Iwerddon. Mae hefyd yn ategu, yn hytrach na'n disodli'r safonau a osodir gan y cyrff rheoleiddio iechyd a gofal (e.e. GDC, GMC, NMC, HCPC). Mae hyn yn sicrhau bod y fframwaith yn creu strwythur sylfaen ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn efelychu, gyda'r hyblygrwydd i'w addasu'n lleol a sefydliadol. Oherwydd ei gysondeb â Safonau ASPiH[1] gall hefyd gynorthwyo cynnydd tuag at achrediad ASPiH.

I aros yn addas, cynhwysol a hyblyg i'r dyfodol, mae'r fframwaith yn ymatal yn fwriadol rhag cyfeirio at theorïau, modelau neu ddulliau penodol – oni bai eu bod yn gydnabyddedig iawn, seiliedig ar dystiolaeth a strwythurol berthnasol i barth. Er enghraifft, gall gyfeirio at ddulliau addysgeg a thrawsnewidiol os yw'r naill yn cefnogi datblygiad uniongyrchol mewn ymarfer Addysgol, a'r llall mewn ymarfer Trawsnewidiol. Mae hyn yn ei atal rhag ffafrio ysgolion meddwl neu fethodolegau efelychu penodol. Yn hytrach, mae'n cynnig strwythur cadarn a hyblyg i esblygu ochr yn ochr â'r maes, gan gynorthwyo mathau amrywiol o ymarfer ac arloesi i ffynnu. Drwy ganolbwyntio ar allu yn hytrach na rhagnodi gofynion, mae'r fframwaith hwn yn cefnogi gweithlu efelychu hyderus seiliedig ar werthoedd a thystiolaeth ar draws iechyd a gofal.

Mae geirfa o dermau wedi'i chreu i gefnogi'r dull cynhwysol hwn er mwyn cynorthwyo dehongli, hygyrchedd ac fel offeryn cyfeiriol.

# Matrics y Fframwaith

**1. Darganfod:** *Wedi'i ddylunio ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gychwyn eu siwrne yn unrhyw un o'r pum parth ymarfer. Yn y cam hwn maen nhw'n **darganfod** egwyddorion sylfaen a sut i'w cymhwyso. Byddant yn deall prif theorïau a chysyniadau'r parth ac yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cysylltiedig dan arweiniad. Y nod yw creu sylfaen gref o wybodaeth ac ymarfer.*

**2. Twf:** *Yn nodi bod hyder ac annibyniaeth y gweithiwr proffesiynol yn **tyfu.** Maen nhw'n symud y tu hwnt i'w gymhwysiad sylfaenol at gwblhau rolau a chyfrifoldebau mwy cymhleth. Yn y cam hwn maen nhw'n arwain ac asesu gweithgareddau'n annibynnol yn eu parth. Medrant hefyd ddechrau mentora neu dywys eraill gan ddangos eu bod yn symud at rôl arweinyddiaeth yn eu hymarfer.*

**3. Aeddfedrwydd:** *Yn cynrychioli aeddfedrwydd arbenigedd y gweithiwr. Mae'r gweithiwr yn symud y tu hwnt i ddylanwadu i ymgorffori meistrolaeth reddfol a chelfydd o'u hymarfer gan gyd-greu a hyrwyddo theori a methodoleg ar lefel sefydliadol neu genedlaethol. Maen nhw'n mentora'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr gan ymgorffori'r lefel uchaf o gelfyddyd broffesiynol.*

| **Parthau Ymarfer**<br>**Haen Datblygiad Proffesiynol** | **Addysgol** [3,4] | **Trawsnewidiol** [5] | **Technolegol** [6] | **Ysgolheigaidd** [7] | **Arweinyddiaeth** [8] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darganfod**<br>*Cymhwyso a chyfranogi* | Yn cymhwyso theorïau addysgeg ac egwyddorion efelychu i ddylunio gan hwyluso addysg efelychu ddiogel ac effeithiol dan arweiniad. | Yn cymhwyso theorïau ymarfer ac egwyddorion efelychu craidd i gefnogi efelychiadau'n ymwneud â chwilio am gyfleoedd i wella systemau, prosesau neu ddiwylliant dan arweiniad. | Yn gweithredu a chymhwyso technolegau efelychu dan arweiniad i gefnogi fformatau efelychu amrywiol. | Yn cymhwyso tystiolaeth efelychu a chyfrannu at weithgareddau ysgolheigaidd dan arweiniad. | Yn cymhwyso egwyddorion arweinyddiaeth a rheoli sylfaenol a chyfrannu'n effeithiol at dimau efelychu. |
| **Twf**<br>*Arwain a gwerthuso* | Yn arwain a gwerthuso addysg efelychu gan gymhwyso theori addysgeg uwch a mentora eraill i ddarparu profiadau dysgu effeithiol. | Yn arwain ar ddylunio a darparu Efelychu Trawsnewidiol i greu mewnwelediad a newid systemig ystyrlon. | Yn arwain ar integreiddio a gwerthuso technoleg efelychu fel rhan o ddylunio a darparu efelychiadau. | Yn arwain prosiectau ysgolheigaidd a gwerthuso efelychu gan arfarnu ymchwil yn feirniadol a lledaenu'r canfyddiadau. | Yn arwain timau a phrosiectau efelychu, gan gydlynu pobl, adnoddau a blaenoriaethau. |
| **Aeddfedrwydd**<br>*Cyd-greu a dylanwadu* | Yn cyd-greu a hyrwyddo strategaethau addysg efelychu gan ddylanwadu ar ddatblygu'r cwricwlwm ac efelychwyr ar lefel sefydliadol, genedlaethol neu ryngwladol. | Yn cyd-greu a hyrwyddo rhaglenni Efelychu Trawsnewidiol mawr gan ddylanwadu ar benderfyniadau polisi, dylunio systemau a strategol. | Yn cyd-greu strategaethau technegol ac arloesi efelychu gan ddylanwadu ar benderfyniadau caffael a seilwaith. | Yn cyd-greu a hyrwyddo ysgolheictod efelychu drwy arweinyddiaeth ymchwil genedlaethol a rhyngwladol. | Yn cyd-greu cyfeiriad strategol a dylanwadu ar ymarfer efelychu sefydliadol, cenedlaethol neu ryngwladol. |

# Y Parth Ymarfer Addysgol: Disgrifyddion

| Haen Datblygiad Proffesiynol | Addysgol [3,4] | Disgrifyddion |
|---|---|---|
| **Darganfod**<br><br>Cymhwyso a chyfranogi | Yn cymhwyso theorïau addysgeg ac egwyddorion efelychu i ddylunio gan hwyluso addysg efelychu ddiogel ac effeithiol dan arweiniad.<br><br> | Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Pwrpas, terminoleg allweddol, manteision a chyfyngiadau defnyddio efelychu fel dull addysgol.<br>• Theorïau ac egwyddorion addysgeg craidd defnyddio efelychu mewn addysg a hyfforddiant.<br>• Y cysoni rhwng amcanion dysgu, gweithgareddau dysgu, ac asesu (lle bo’n berthnasol).<br>• Y gwahanol amgylcheddau, methodolegau a dulliau efelychu sydd ar gael.<br>• Egwyddorion ac elfennau briffio, hwyluso, adborth a dibriffio effeithiol.<br>• Egwyddorion diogelwch seicolegol a sut i’w feithrin.<br>• Rôl pobl efelychol (SP) a’u ffiniau proffesiynol a moesegol.<br>• Pwysigrwydd a pherthnasedd amrywiaeth a chynhwysiant mewn efelychu.<br>• Y cysyniad o feta-ddibriffio a dulliau ar gyfer gwerthuso ymarfer dibriffio.<br>• Rheoli risg wrth ddefnyddio efelychu mewn gwahanol amgylcheddau, gan gynnwys y niwed posib i bobl a’r cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch.<br><br>Mae’r gweithiwr yn gallu:<br>• Diffinio anghenion dysgwyr ac ysgrifennu canlyniadau dysgu clir, mesuradwy.<br>• Dylunio gweithgareddau efelychu wedi eu cysoni â chanlyniadau dysgu a cham datblygu’r dysgwr.<br>• Cynllunio a darparu briffio clir ac effeithiol i efelychwyr a rhag-briffio i ddysgwyr.<br>• Hwyluso gweithgareddau efelychu mewn ffordd sy’n briodol i anghenion y fethodoleg a’r dysgwr (lefel sgil a gwybodaeth), gan gynnal diogelwch seicolegol.<br>• Dibriffio a rhoi adborth adeiladol yn defnyddio model perthnasol (lle bo’n berthnasol).<br>• Briffio ac ymgysylltu â phobl efelychol (SP) yn effeithiol gan sicrhau eu lles ac ymgorffori eu hadborth.<br>• Myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a chyfranogi mewn dysgu o feta-ddibriffio.<br>• Gwneud addasiadau rhesymol a theilwrio cynnwys i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.<br>• Cyfranogi mewn adolygiadau ôl-gwrs a phrosiectau sicrhau ansawdd.<br>• Adnabod ac uwchgyfeirio risgiau diogelwch, a phroblemau gweithredol neu logistaidd, i gydweithiwr mwy profiadol.<br><br>Yn dangos: |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Hunan-fyfyrio a pharodrwydd i ddysgu a derbyn arweiniad gan eraill.<br>• Pwysigrwydd amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol.<br>• Ymddygiad proffesiynol priodol a gallu gweithio'n gydweithredol mewn tîm.<br>• Ymgysylltu mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD). |
| **Twf**<br><br>Arwain a gwerthuso | Yn arwain a gwerthuso addysg efelychu gan gymhwyso theori addysgeg uwch a mentora eraill i ddarparu profiadau dysgu effeithiol. | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r cam blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Pryd mai efelychu yw'r dull cywir er mwyn creu dysgu effeithiol.<br>• Ystod eang o theorïau ac egwyddorion addysgeg uwch defnyddio efelychu mewn addysg a hyfforddiant.<br>• Y dystiolaeth efelychu a'r arferion gorau presennol.<br>• Egwyddorion cyd-gynhyrchu.<br>• Egwyddorion addysg ryngbroffesiynol effeithiol (IPE)<br>• Sut i fapio gweithgareddau efelychu i gwricwlwm ffurfiol, pecyn hyfforddiant, neu anghenion dysgu lleol.<br>• Sut i ddylunio a hwyluso profiadau addysgol sy'n ddiwylliannol ymatebol a chynhwysol.<br>• Ystod o fodelau dibriffio, strategaethau i optimeiddio cyd-ddibriffio, a ffactorau sy'n bygwth amgylchedd dysgu seicolegol ddiogel.<br>• Sicrwydd ansawdd drwy gymhwyso safonau efelychu.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Arwain ar ddylunio, darparu a gwerthuso efelychu ar gyfer addysg a hyfforddiant.<br>• Ymgysylltu â chleifion arbenigol gyda phrofiad bywyd drwy gyd-gynhyrchu efelychiadau.<br>• Cynnal a rheoli pob agwedd ar ymyriad efelychu gan gynnwys briffio efelychwyr a dyrannu rolau ar sail galluoedd unigolion.<br>• Dyrannu ac addasu efelychiadau i sicrhau eu bod yn berthnasol i rôl a phrofiad yr unigolyn.<br>• Cymhwyso strategaethau a thechnegau effeithiol o ddylunio a hwyluso addysg ryngbroffesiynol (IPE).<br>• Gwirio cymhwysedd pobl efelychol (SP) a'u cynnwys yn weithredol yn y broses efelychu.<br>• Darparu dibriffio uwch, gan gynnwys adnabod dulliau priodol, cymhwyso strategaethau ar gyfer cyd-ddibriffio a rheoli sefyllfaoedd dibriffio anodd.<br>• Dibriffio grwpiau o wahanol gefndiroedd yn effeithiol gan ystyried nodweddion a warchodir.<br>• Mentora a chyd-hwyluso gydag efelychwyr llai profiadol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Rheoli'n rhagweithiol a lliniaru ffactorau sy'n bygwth diogelwch seicolegol pawb.<br>• Arwain adolygiadau ôl-gwrs a phrosiectau sicrhau ansawdd.<br>• Arwain cyfranogi mewn meta-ddibriffio i wella ymarfer.<br>• Cymhwyso'r dystiolaeth a'r arferion efelychu gorau i ymarfer y gweithiwr.<br>• Rheoli a lliniaru risgiau efelychu i randdeiliaid mewn ffordd ragweithiol.<br><br>Yn dangos:<br>• Modelu rôl a hunan-fyfyrio<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a pharodrwydd i fyfyrio'n rheolaidd ar eu hymarfer a gwella eu hymarfer. |
| **Aeddfedrwydd**<br><br>Cyd-greu a dylanwadu | Yn cyd-greu a hyrwyddo strategaethau addysg efelychu gan ddylanwadu ar ddatblygu'r cwricwlwm ac efelychwyr ar lefel sefydliadol, genedlaethol neu ryngwladol.<br><br> | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r camau blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Y tirlun efelychu addysgol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.<br>• Gwahanol safonau efelychu ar gyfer addysg a hyfforddiant<br>• Fframweithiau llywodraeth, modelau cyllido a strategaethau cynaliadwyedd ar gyfer efelychu.<br>• Egwyddorion dylunio a datblygu'r cwricwlwm.<br>• Dulliau rheoli a gweithredu rhaglenni strategol.<br>• Technegau dadansoddi anghenion dysgwyr.<br>• Gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac asesu risg ar gyfer prosiectau lefel uchel.<br>• Dulliau mentora a chymorth 1:1 ar gyfer datblygu efelychwyr.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Arwain ar ddylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni datblygu a hyfforddiant effaith uchel ar gyfer efelychwyr.<br>• Sicrhau safoni ac ansawdd darparu rhaglenni drwy brosesau gwerthuso strategol ac adolygu gan gymheiriaid (lle bo'n berthnasol).<br>• Rheoli adnoddau efelychwyr a Phobl Efelychol (SP) gan gynnwys recriwtio, dethol, hyfforddiant ac arweiniad.<br>• Mentora a rhoi cymorth 1:1 i efelychwyr i sicrhau ansawdd a chysondeb ar draws rhaglenni addysgol a hyfforddiant.<br>• Defnyddio'r dystiolaeth ac arferion gorau i gefnogi datblygiad proffesiynol eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Datblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau i liniaru risg i ddysgwyr, staff a chleifion mewn ffordd strategol.<br>• Rhoi arweiniad a chymorth arbenigol i gydweithwyr ar reoli heriau cymhleth.<br>• Dylanwadu ar bolisi addysgol mewn cyd-destun sefydliadol, cenedlaethol neu ryngwladol.<br><br>Yn dangos:<br>• Cydnabyddiaeth fel arweinydd ac arbenigwr ym maes Addysg Efelychu.<br>• Yn gallu modelu rôl ymddygiad proffesiynol a rhoi arweiniad arbenigol i efelychwyr.<br>• Yn gallu meithrin diwylliant o ragoriaeth ac arloesi addysgol.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) drwy werthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiad efelychwyr eraill yn rheolaidd.<br>• Ymgysylltu ag ymchwil efelychu addysgiadol. |

# Y Parth Ymarfer Trawsnewidiol: Disgrifyddion

| Haen Datblygiad Proffesiynol | Trawsnewidiol [5] | Disgrifyddion |
|---|---|---|
| **Darganfod**<br><br>Cymhwyso a chyfranogi | Yn cymhwyso theorïau ymarfer ac egwyddorion efelychu craidd i gefnogi efelychiadau'n ymwneud â chwilio am gyfleoedd i wella systemau, prosesau neu ddiwylliant dan arweiniad.<br><br> | Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Y gwahaniaeth rhwng efelychu i addysgu ac efelychu i greu mewnwelediad a newid ar lefel diwylliant a systemau.<br>• Egwyddorion, terminoleg allweddol, manteision a chyfyngiadau defnyddio efelychu i drawsnewid.<br>• Theorïau ac egwyddorion ymarfer craidd defnyddio efelychu i hwyluso mewnwelediad sefydliadol, ymgysylltiad pobl, a newid diwylliant a systemau.<br>• Y cysoni rhwng egwyddorion, bwriadau efelychu a'r pedwar D (Dylunio, Darparu, Data a Dibriffio).<br>• Y gwahaniaethau theoretig a dylunio rhwng efelychu ar gyfer arloesi, gwella, ymyrryd, cynnwys, adnabod, cynhwysiant a dylanwadu.<br>• Sut y mae casglu data'n gyson â sylfeini theoretig ac ymarfer efelychu ar gyfer trawsnewid.<br>• Yr ystod o wahanol amgylcheddau, methodolegau a dulliau sydd ar gael i gwblhau efelychiad ar gyfer trawsnewid.<br>• Rôl pobl efelychol (SP) a'u ffiniau proffesiynol a moesegol.<br>• Egwyddorion neilltuol dibriffio ar gyfer mewnwelediad sefydliadol, dad-ddysgu, a thrawsnewid.<br>• Y risg o ddefnyddio efelychu mewn gwahanol amgylcheddau, gan gynnwys y niwed posib i bobl a'r cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch.<br>• Cynaliadwyedd efelychu ar gyfer trawsnewid.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Cyfranogi'n effeithiol mewn efelychiadau ar gyfer gwella, newid neu ail-ddychmygu systemau, prosesau neu ddiwylliant.<br>• Cydweithredu ag arbenigwyr mewn meysydd perthnasol i weithredu bwriadau efelychu'n effeithiol.<br>• Cyfrannu at gysoni penderfyniadau dylunio, darparu, casglu data a dibriffio i fwriadau efelychu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Cyfranogi mewn dibriffio sy'n hwyluso trawsnewid diogel, moesegol ac effeithiol, yn fewnol ac allanol.<br>• Adnabod ac uwchgyfeirio risgiau diogelwch a phroblemau gweithredol i gydweithiwr mwy profiadol.<br>• Cymhwyso egwyddorion cynaliadwyedd wrth ddylunio efelychu ar gyfer trawsnewid.<br><br>Yn dangos:<br>• Ymrwymiad i ddefnyddio efelychu i gefnogi mewnwelediad sefydliadol, dad-ddysgu a newid ar lefel diwylliant a systemau.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD). |
| **Twf**<br><br>Arwain a gwerthuso | Yn arwain ar ddylunio a darparu Efelychu Trawsnewidiol i greu mewnwelediad a newid systemig ystyrlon.<br><br> | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r cam blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Pryd mai efelychu yw'r ffordd orau o hwyluso mewnwelediad a newid ymhlith pobl a systemau drwy egwyddorion moesegol a gwerthoedd.<br>• Y dystiolaeth efelychu a'r arferion gorau presennol.<br>• Rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu â nhw, ym mha gam o'r broses a pham.<br>• Rôl pobl efelychol (SP) mewn efelychu ar gyfer trawsnewid.<br>• Adnabod a chymhwyso theorïau a modelau bwriadau (arloesi, gwella, ymyrryd, cynnwys, adnabod, cynhwysiant a dylanwadu) drwy benderfyniadau dylunio, darparu, data a dibriffio.<br>• Cymhwyso dulliau casglu data sy'n gyson â'r bwriadau efelychu.<br>• Hyrwyddo strategaethau a thechnegau dibriffio i sicrhau dibriffio ar gyfer newid systemau a diwylliant.<br>• Defnyddio efelychu i ddylanwadu ar gynaliadwyedd mewn iechyd a gofal.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Adnabod a diffinio anghenion gwasanaeth neu'r gweithlu a chysoni bwriadau efelychu, gan ystyried eu dylanwadau theoretig.<br>• Arwain ar ddylunio, darparu, casglu data a dibriffio efelychiadau ar gyfer trawsnewid.<br>• Cymhwyso'r dystiolaeth a'r arferion efelychu gorau i ymarfer y gweithiwr.<br>• Cynnal a rheoli pob agwedd ar ymyriad efelychu gan gynnwys briffio efelychwyr a dyrannu rolau ar sail galluoedd unigolion.<br>• Cydweithredu ag arbenigwyr i sicrhau bod y ffocws a'r dyluniad yn briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Casglu a dadansoddi data i asesu pa mor effeithiol yw Efelychiadau Trawsnewidiol.<br>• Defnyddio uwch-strategaethau dibriffio i ddadansoddi systemau, deall risgiau a phroblemau diogelwch, hwyluso mewnwelediad / dad-ddysgu sefydliadol, a chynorthwyo ymgysylltiad a lles staff.<br>• Adrodd a lledaenu canfyddiadau o'r data a gasglwyd a dibriffio rhanddeiliaid mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.<br>• Mentora a chyd-hwyluso'n rhagweithiol gydag efelychwyr llai profiadol.<br>• Rheoli a lliniaru risgiau efelychu i randdeiliaid mewn ffordd ragweithiol.<br>• Defnyddio efelychu fel dull o greu cynaliadwyedd mewn iechyd a gofal.<br><br>Yn dangos:<br>• Dull rhagweithiol o adnabod pryd mai efelychu yw'r dull iawn o hwyluso trawsnewid.<br>• Hyder mewn arwain Efelychiadau Trawsnewidiol.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a pharodrwydd i fyfyrio'n rheolaidd ar eu hymarfer a gwella eu hymarfer. |
| **Aeddfedrwydd**<br><br>Cyd-greu a dylanwadu | Yn cyd-greu a hyrwyddo rhaglenni Efelychu Trawsnewidiol mawr gan ddylanwadu ar benderfyniadau polisi, dylunio systemau a strategol.<br><br> | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r camau blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Fframweithiau llywodraeth a modelau cyllido ar gyfer efelychu trawsnewidiol.<br>• Technegau dadansoddi anghenion a dulliau ymatebol o weithredu prosiectau Efelychu Trawsnewidiol.<br>• Dulliau rheoli a gweithredu rhaglenni Efelychu Trawsnewidiol.<br>• Lleoli a dylanwadu ar ddefnyddio Efelychu Trawsnewidiol mewn arweinyddiaeth a llywodraethu.<br>Goblygiadau strategol ymyriadau Efelychu Trawsnewidiol ar raddfa fawr.<br>• Casglu a lledaenu tystiolaeth ac effaith.<br>• Gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac asesu risg ar gyfer efelychu trawsnewidiol.<br>• Cynaliadwyedd dulliau a rhaglenni gwaith.<br>• Mentora, rhoi cymorth 1:1 a datblygu efelychwyr mewn methodoleg Efelychu Trawsnewidiol.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Arwain ar weithrediad strategol efelychu trawsnewidiol gan ddefnyddio dull systemau a llywodraethu rhaglen trylwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gwneud rhag-ddefnydd o Efelychu Trawsnewidiol mewn ffordd gylchol, fynychol er mwyn adnabod cyfle i newid.<br>• Rheoli cyllidebau a llywodraethu ar gyfer prosiectau mawr.<br>• Mentora a rhoi cymorth 1:1 i efelychwyr i sicrhau ansawdd a chysondeb ar draws rhaglen neu system.<br>• Cynnal ymchwil ac archwiliadau i benderfynu effaith ymyriadau efelychu.<br>• Dylanwadu ar bolisi a strategaethau sefydliadol i wreiddio mewnwelediad a newid drwy efelychu.<br>• Cymhwyso canfyddiadau data a dibriffio'n strategol i ddylanwadu ar yr arweinyddiaeth ac i oleuo polisi sefydliadol.<br>• Defnyddio'r dystiolaeth ac arferion gorau i gefnogi datblygiad proffesiynol eraill.<br>• Cyfrannu at dystiolaeth a gwybodaeth ar lefel byd-eang.<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau i liniaru risgiau i bobl mewn ffordd strategol.<br>• Rhoi arweiniad a chymorth arbenigol i gydweithwyr ar reoli heriau cymhleth.<br><br>Yn dangos:<br>• Modelu rôl fel arbenigwr ym maes Efelychu Trawsnewidiol.<br>• Y gallu i feithrin diwylliant o fewnwelediad a newid sefydliadol parhaus ar lefel sefydliad, cenedlaethol neu ryngwladol.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a gwerthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiad ymarferwyr eraill yn rheolaidd. |

# Y Parth Ymarfer Technolegol: Disgrifyddion

| Haen Datblygiad Proffesiynol | Technolegol [6] | Disgrifyddion |
|---|---|---|
| **Darganfod**<br><br>Cymhwyso a chyfranogi | Yn gweithredu a chymhwyso technolegau efelychu dan arweiniad i gefnogi gwahanol fformatau efelychu.<br><br> | Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Swyddogaeth sylfaenol, gweithrediad, cyfyngiadau a chynnal cyfarpar a meddalwedd efelychu a ddefnyddir yn rheolaidd.<br>• Pwrpas gwahanol lefelau realaeth (e.e. amgylcheddol, ffisegol, cymdeithasegol a seicolegol) a'u cymhwysiad mewn amrywiol weithgareddau efelychu.<br>• Gweithdrefnau safonol ar gyfer sefydlu, ail-osod a chau lawr amgylchedd efelychu a ddefnyddir yn rheolaidd.<br>• Camau sylfaenol i ganfod atebion i broblemau technegol cyffredin.<br>• Cysyniadau sylfaenol dysgu ar-lein, rhithiol a hybrid, gan gynnwys arferion gorau ar gyfer ymgysylltu.<br>• Risgiau diogelwch defnyddio cyfarpar efelychu mewn amgylcheddau addysgu a dysgu.<br>• Hygyrchedd senarios dysgu i bobl gyda gwahaniaethau corfforol a gwybyddol.<br>• Egwyddorion sylfaenol cyfle cyfartal i gael mynediad at ddysgu ac efelychu gyda chymorth technoleg.<br>• Effaith amgylcheddol technoleg a phwysigrwydd cynaliadwyedd.<br>• Egwyddorion methodolegau dylunio a chyd-ddylunio cyfranogol gan gynnwys technoleg fel bwrdd darlunio, prototeipio a hap-ddylunio ar gyfer cynnwys amrywiol randdeiliaid mewn datblygu efelychiadau.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Gweithredu a defnyddio ystod o gyfarpar efelychu a ddefnyddir yn rheolaidd.<br>• Dilyn rhestri gwirio a ddiffiniwyd ymlaen llaw ar gyfer sefydlu, ail-osod a chau lawr amgylchedd efelychu.<br>• Gwneud gwiriadau sain, gweledol ac ar gyfarpar efelychu.<br>• Adnabod ac adrodd problemau technegol.<br>• Darparu cymorth technegol sylfaenol mewn amgylchedd ar-lein, rhithiol (gan gynnwys trochol) neu hybrid.<br>• Dilyn gweithdrefnau penodol i sicrhau defnydd diogel o gyfarpar ac amgylcheddau efelychu.<br>• Cyfranogi'n effeithiol mewn sesiynau cyd-ddylunio a chyfrannu at ddulliau cyfranogol o ddethol a gweithredu technolegau efelychu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Defnyddio cyfarpar AV neu drochol.<br><br>Yn dangos:<br>• Y gall ddilyn gweithdrefnau technegol yn ddibynadwy.<br>• Parodrwydd i ddysgu a derbyn arweiniad ar ddefnyddio technegol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (CPD). |
| **Twf**<br><br>Arwain a gwerthuso | Yn arwain ar integreiddio a gwerthuso technolegau efelychu fel rhan o ddylunio a darparu efelychiadau. | Gan adeiladu ar wybodaeth o'r cam blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Swyddogaethau a galluoedd llawn ystod eang o gyfarpar a thechnolegau efelychu.<br>• Egwyddorion cynhyrchu a rheoli data AV.<br>• Strategaethau i ganfod atebion i broblemau technegol cymhleth.<br>• Datblygiadau newydd ac ar ddyfod yn y cyd-destun efelychu.<br>• Protocolau diogelwch cynhwysfawr ar gyfer rheoli technolegau a thechnegau efelychu mewn amgylchedd addysgu.<br>• Technegau i sicrhau mynediad a defnydd teg o dechnolegau a thechnegau efelychu.<br>• Egwyddorion caffael a gwaredu technoleg gynaliadwy.<br>• Technegau i sicrhau bod senarios dysgu'n hygyrch i bobl gyda gwahaniaethau corfforol a gwybyddol.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Rheoli pob agwedd dechnegol ar ymyriad efelychu cymhleth, yn annibynnol.<br>• Dethol amgylchedd (e.e. canolfan, fan a'r lle, rhithiol) a methodoleg efelychu priodol ar gyfer y canlyniadau sydd mewn golwg.<br>• Dylunio a chreu senarios cymhleth mewn meddalwedd efelychu.<br>• Rheoli a chanfod atebion i broblemau technegol gan roi cymorth i gydweithwyr llai profiadol.<br>• Defnyddio a rheoli cyfarpar AV neu drochol i gasglu data'n effeithiol.<br>• Cynghori ar y lefelau technoleg a realaeth priodol ar gyfer gwahanol anghenion addysgol a sefydliadol.<br>• Gweithredu a chadw trosolwg rhagweithiol ar brotocolau diogelwch, fel gwahanu cyfarpar yn neilltuol, i atal defnyddio cyfarpar efelychu i ofalu am gleifion.<br>• Integreiddio egwyddorion hygyrchedd a defnyddioldeb wrth ddethol a gweithredu technoleg. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Gwneud penderfyniadau amgylcheddol deallus ar ddefnyddio a chaffael technoleg o ran cynaliadwyedd.<br>• Eiriol dros a mentora cydweithwyr ar fabwysiadu technolegau efelychu newydd.<br>• Cymhwyso egwyddorion cyd-ddylunio.<br>• Cymhwyso egwyddorion dylunio siwrne'r defnyddiwr ar draws y broses efelychu.<br><br>Yn dangos:<br>• Y gallu i reoli heriau technegol yn rhagweithiol ac addasu i newidiadau gweithredol.<br>• Y gallu i gynnal a gwella eu galluoedd technegol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (CPD). |
| **Aeddfedrwydd**<br><br>Cyd-greu a dylanwadu | Yn cyd-greu strategaethau ac arloesi technolegol mewn efelychu gan ddylanwadu ar benderfyniadau seilwaith a chaffael. | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r camau blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Y tirlun technolegol presennol ac ar ddyfod mewn efelychu.<br>• Cynllunio strategol ar gyfer caffael, seilwaith a chyllidebu technoleg.<br>• Egwyddorion seiber-ddiogelwch a diogelu data.<br>• Rheoli prosiectau technoleg mawr.<br>• Goblygiadau strategol integreiddio technolegau rhithiol, ar-lein ac wedi eu pweru ag AI.<br>• Arferion gorau a llywodraethu ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd a mynediad teg at dechnoleg efelychu.<br>• Gwybodaeth arbenigol am fath penodol o dechnoleg efelychu.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Datblygu ac arwain ar weithredu cynllun strategol hirdymor ar gyfer technoleg a seilwaith efelychu.<br>• Gwerthuso, gweithredu ac archwilio technolegau efelychu newydd ac ar ddyfod.<br>• Dylanwadu ar bolisi sefydliadol a chynghori'r uwch-arweinyddiaeth ar werth, risgiau a goblygiadau strategol mabwysiadu technoleg efelychu newydd.<br>• Arwain prosiectau ar gymhwyso technolegau efelychu newydd.<br>• Datblygu, gweithredu ac archwilio polisïau a gweithdrefnau strategol ar ddiogelwch cyfarpar.<br>• Creu a gwreiddio polisïau sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd a mynediad cyfartal at ddefnyddio technolegau efelychu ar lefel sefydliad, genedlaethol neu ryngwladol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Asesu a dethol yn strategol y technolegau sy'n gynrychiadol o'r amrywiol boblogaethau a grwpiau cleifion a wasanaethir.<br>• Meithrin diwylliant o arloesi technolegol a gwella parhaus ar draws y sefydliad.<br><br>Yn dangos:<br>• Sut i hyrwyddo arloesi technolegol a gwella parhaus ar lefel strategol.<br>• Y gallu i greu a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda gwerthwyr technoleg ac uwch-randdeiliaid.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a gwerthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiad ymarferwyr eraill yn rheolaidd. |

# Y Parth Ymarfer Ysgolheigaidd: Disgrifyddion

| Haen Datblygiad Proffesiynol | Ysgolheigaidd [7] | Disgrifyddion |
|---|---|---|
| **Darganfod**<br><br>Cymhwyso a chyfranogi | Yn cymhwyso tystiolaeth efelychu a chyfrannu at weithgareddau ysgolheigaidd dan arweiniad.<br><br> | Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Y dystiolaeth a'r datblygiadau efelychu allweddol ar hyn o bryd.<br>• Y gwahaniaeth rhwng defnyddio efelychu fel dull ymchwil, ymchwilio i efelychu, a defnyddio dulliau ymchwil fel rhan o efelychiad i greu data.<br>• Methodolegau ymchwil a gwerthuso syml, dulliau a methodolegau casglu data, a'u cyfyngiadau, y gellir eu cymhwyso i ymarfer efelychu ar lefel sylfaenol.<br>• Cyfleoedd a heriau gwneud ymchwil i efelychu.<br>• Codau ymddygiad moesegol gwneud ymchwil i ymarfer efelychu.<br>• Y cysyniad o ragfarn a hunan-archwilio a'i gysylltiad â dulliau gwrthrychol a goddrychol.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Arfarnu'r dystiolaeth a'r datblygiadau diweddaraf yn feirniadol.<br>• Cyfranogi mewn dylunio, cynnal a gwerthuso ymchwil a gwerthuso efelychu.<br>• Cyflwyno gwybodaeth o ymchwil a gwerthuso mewn ffordd glir, resymegol ac ystyrlon.<br>• Integreiddio gwybodaeth o ymchwil, gwerthuso ac ymarfer adolygu gan gymhariaid i oleuo newid mewn ymarfer efelychu.<br>• Deall safiadau gwrthrychol a goddrychol dulliau ymchwil.<br><br>Yn dangos:<br>• Ymgysylltu â'r dystiolaeth efelychu.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD). |
| **Twf**<br><br>Arwain a gwerthuso | Yn arwain prosiectau ysgolheigaidd a gwerthuso gan arfarnu ymchwil yn feirniadol a lledaenu'r canfyddiadau. | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r cam blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Y lensys epistemoleg, ontoleg ac athronyddol a gymhwysir i ysgolheictod efelychu.<br>• Ystod eang o fethodolegau a dulliau ymchwil.<br>• Y broses o adolygu a llywodraethu moesegol ar gyfer prosiectau ysgolheigaidd a gwerthuso. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Prosesau cyhoeddi ac adolygu cylchgronau academaidd gan gymhariaid, ac opsiynau lledaenu eraill.<br>• Gwahanol brosesau ymgeisio am grantiau a chyfleoedd cyllido.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Dylunio, cynnal ac arwain ymchwil efelychu moesegol a gwerthuso'n defnyddio dulliau a methodolegau ymchwil priodol.<br>• Gwerthuso'r dystiolaeth efelychu'n feirniadol a chymhwyso'r dysgu i'w hymarfer.<br>• Adnabod ac arwain cyfleoedd ymchwil ar gyfer efelychu.<br>• Cyflwyno'r canfyddiadau i randdeiliaid i ddangos effaith a gwerth ymchwil efelychu.<br>• Mentora a rhoi adborth i gydweithwyr ar brosiectau ymchwil a gwerthuso perthnasol i efelychu.<br>• Myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith ysgolheigaidd eu hunain a gwaith eraill.<br><br>Yn dangos:<br>• Bidio am ymchwil ac allbynnau.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) gan werthuso perfformiad yn rheolaidd. |
| **Aeddfedrwydd**<br><br>Cyd-greu a dylanwadu | Yn cyd-greu a hyrwyddo ysgolheictod efelychu drwy arweinyddiaeth ymchwil genedlaethol a rhyngwladol. | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r camau blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Y tirlun ymchwil efelychu cenedlaethol a rhyngwladol.<br>• Uwch-reolaeth o grantiau a hawliau eiddo deallusol.<br>• Strategaethau ar gyfer sefydlu ac arwain timau ymchwil aml-broffesiynol ac aml-ddisgyblaethol yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.<br>• Sut i gynhyrchu theorïau a fframweithiau newydd ar gyfer ymarfer efelychu.<br>• Cyfleoedd a phrosesau cyllido mawr.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Creu cysyniadau ar gyfer ac arwain prosiectau ymchwil a gwerthuso ar lefel leol, genedlaethol neu ryngwladol.<br>• Sicrhau arian grant cenedlaethol neu ryngwladol sylweddol.<br>• Dylanwadu ar bolisi a safonau ymchwil mewn efelychu.<br>• Arwain tîm ymchwil a mentora eraill i ddatblygu eu gyrfaoedd ymchwil. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Defnyddio dull strategol i drosi ymchwil ac arloesi'n ymarfer er mwyn hyrwyddo ansawdd ac effeithiolrwydd efelychu ar lefel adrannol, ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol.<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a chanllawiau i sicrhau bod ymchwil a gwerthuso'n gynhwysol.<br>• Creu dulliau casglu data pwrpasol a chynhyrchu theorïau a fframweithiau newydd.<br>• Cynhyrchu cwestiynau ac agendâu ymchwil sy'n hyrwyddo'r maes.<br>• Lledaenu'r canfyddiadau'n eang drwy gyhoeddiadau a chyflwyniadau cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>Yn dangos:<br>• Cydnabyddiaeth fel arweinydd ac arbenigwr mewn ysgolheictod efelychu.<br>• Y gallu i feithrin diwylliant o arloesi ac ymchwil.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) drwy hyrwyddo a gwerthuso eu hymarfer ysgolheigaidd eu hunain ac ymarfer eraill. |

## Y Parth Ymarfer Arweinyddiaeth: Disgrifyddion

| Haen Datblygiad Proffesiynol | Arweinyddiaeth [8] | Disgrifyddion |
|---|---|---|
| **Darganfod**<br><br>Cymhwyso a chyfranogi | Yn cymhwyso egwyddorion arweinyddiaeth a rheoli sylfaenol a chyfrannu’n effeithiol at dimau efelychu.<br><br> | Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Egwyddorion sylfaenol rolau a chyfrifoldebau unigolion a thimau, a deinameg, dylanwad ac effaith yr arweinyddiaeth arnynt.<br>• Y gwahaniaethau sylfaenol rhwng cysyniadau arweinyddiaeth a rheoli, ac amrywiaeth o ddulliau arweinyddiaeth.<br>• Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy’n berthnasol i’w rôl.<br>• Pwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), a gwyleidd-dra diwylliannol mewn amgylchedd proffesiynol.<br>• Diogelwch, cynhyrchedd a lles unigolion a thimau.<br>• Sut i ymgysylltu gyda, a chefnogi pobl a rheoli sefyllfaoedd heriol.<br><br>Mae’r gweithiwr yn gallu:<br>• Rheoli eu hamser a thasgau i gyfrannu’n effeithiol at flaenoriaethau efelychu.<br>• Cyfranogi’n effeithiol mewn tîm gan gyfathrebu’n glir a pharchus.<br>• Cydnabod ac uwchgyfeirio problemau neu wrthdaro i gydweithiwr mwy profiadol, neu i arweinydd, yn brydlon.<br>• Cyfrannu at amgylchedd gweithio diogel a chynhwysol.<br><br>Yn dangos:<br>• Parodrwydd i ofyn am a derbyn arweiniad gan eraill.<br>• Ymgysylltu mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD). |
| **Twf**<br><br>Arwain a gwerthuso | Yn arwain timau a phrosiectau efelychu, gan gydlynu pobl, adnoddau a blaenoriaethau. | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o’r cam blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Gweledigaeth, pwrpas a deilliannau darparu a sut i gael pobl i ymgysylltu<br>• Egwyddorion arweinyddiaeth tîm a dirprwyo effeithiol, gan gynnwys diogelwch seicolegol, gweithio mewn timau, a ffactorau system. |

| | | |
|---|---|---|
| |  | • Methodolegau rheoli prosiectau, gan gynnwys dyrannu cyllideb ac adnoddau.<br>• Strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro a chyfryngu.<br>• Cymhwyso technegau newid sefydliadol ac ymddygiad ar lefel leol neu brosiect.<br>• Egwyddorion moesegol ymarfer proffesiynol a'u cymhwyso i efelychu.<br>• Y berthynas rhwng arbenigedd penodol i rôl, ac atebolrwydd.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Arwain tîm yn annibynnol gan hyrwyddo'r weledigaeth a dirprwyo tasgau, adnoddau a chyllideb prosiect yn effeithiol.<br>• Gweithio o fewn, a chymhwyso, polisïau a gweithdrefnau perthnasol i sicrhau ansawdd a diogelwch.<br>• Recriwtio a dethol personél addas a sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad priodol.<br>• Mentora a rhoi cymorth 1:1 i gydweithwyr llai profiadol, datrys mân wrthdaro yn y tîm a chyfrannu at ddatblygu efelychwyr eraill.<br>• Rheoli ac ymyrryd mewn sefyllfaoedd a allai effeithio ar ansawdd yr efelychiad neu les rhanddeiliaid.<br>• Datrys problemau a gwneud penderfyniadau'n rhagweithiol.<br>• Cyfathrebu a gwrando'n effeithiol ar anghenion aelodau o'r tîm.<br><br>Yn dangos:<br>• Y gallu i ysgogi ac ysbrydoli tîm.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a pharodrwydd i fyfyrio'n rheolaidd ar eu hymarfer a gwella eu hymarfer. |
| **Aeddfedrw ydd**<br><br>Cyd-greu a dylanwadu | Yn cyd-greu cyfeiriad strategol a dylanwadu ar ymarfer efelychu sefydliadol, cenedlaethol neu ryngwladol.<br><br> | Gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau ac ymarfer y gweithiwr o'r camau blaenorol:<br><br>Yn dangos gwybodaeth am:<br>• Cynllunio strategol a llywodraethu sefydliadol.<br>• Uwch-reolaeth ariannol a throsolwg ar gyllideb.<br>• Y tirlun polisi ehangach a'i ddylanwad ar efelychu.<br>• Egwyddorion rheoli newid ac arweinyddiaeth, gan gynnwys systemau arweinyddiaeth a strategaethau ar gyfer rheoli cymhlethdod ac ymwrthod â newid.<br>• Fframweithiau safonau a llywodraethu i dywys ansawdd.<br>• Didwylledd ac atebolrwydd llwyr ym mhob dim a wneir ganddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Sut i wneud y defnydd gorau o adnoddau.<br>• Partneriaethau a gweithio'n gydweithredol.<br><br>Mae'r gweithiwr yn gallu:<br>• Hyrwyddo gweledigaeth, cenhadaeth a strategaeth glir sy'n gyson ag amcanion ehangach y sefydliad i sicrhau cynaliadwyedd a thwf ymarfer efelychu.<br>• Arwain a rheoli rhaglenni aml-ddisgyblaethol mawr gan gynnwys sicrhau a chadw trosolwg ar gyllidebau helaeth.<br>• Datblygu a gweithredu polisïau i ddylanwadu ar a thywys ansawdd efelychiadau ar lefel sefydliadol neu genedlaethol.<br>• Cynrychioli'r sefydliad ar lefel ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol.<br>• Gyrru newid ac arloesi sefydliadol ar lefel sylweddol.<br>• Datblygu a gweithredu polisïau cadarn i sicrhau blaenoriaethu, cymorth ariannol, sicrwydd ansawdd, a diogelwch.<br>• Gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) mewn penderfyniadau strategol a dyrannu adnoddau i ddelio â rhwystrau systemig.<br>• Creu a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda rhanddeiliaid.<br><br>Yn dangos:<br>• Y gallu i ysbrydoli ac arwain timau tuag at weledigaeth gyffredin.<br>• Cynaliadwyedd a thwf hirdymor gwasanaethau efelychu.<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a gwerthuso eu perfformiad eu hunain a pherfformiad ymarferwyr eraill yn rheolaidd. |

## Geirfa’r Fframwaith

**Asesu** yw’r broses o roi adborth ar berfformiad i ddysgwr neu grŵp o ddysgwyr. Gall asesiad fod yn grynodol neu’n ffurfiannol.

**Briffio** yw sgwrs sy’n digwydd cyn dechrau gweithgaredd efelychu, gan rannu gwybodaeth hanfodol am y weithgaredd.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)** yw ymrwymiad i ddysgu parhaus gydol oes ac mae’n cynnwys y broses o dracio a chofnodi profiadau, gwybodaeth a sgiliau a enillir ar ôl yr hyfforddiant cychwynnol.

**Newid diwylliannol** yw newid yn y gwerthoedd, credoau, ymddygiad a’r normau cyffredin sy’n dylanwadu ar sut y mae pobl yn meddwl, rhyngweithio a gweithio mewn sefydliad neu system. Mae’n cynnwys dylanwadu ar agweddau, disgwyliadau ac arferion pob dydd fel bo’r ffyrdd newydd o weithio’n cael eu derbyn a’u cynnal dros amser.

**Y cwricwlwm** yw dilyniant ffurfiol wedi’i gynllunio o weithgareddau addysgol a chanlyniadau dysgu er mwyn cyflawni nod addysgol neu hyfforddiant penodol.

**Dibriffio** yw proses led-ffurfiol sy’n annog y dysgwr i fyfyrio ar ddigwyddiadau’r efelychiad gyda’r nod o wella perfformiad neu systemau a diwylliant ar gyfer y dyfodol.

**Gwerthuso** yw’r broses systematig o benderfynu beth yw gwerth, teilyngdod neu arwyddocâd gweithgaredd, rhaglen neu ymyriad efelychu drwy gasglu a dadansoddi data. Gall y gwerthuso ganolbwyntio ar ganlyniadau dysgu, effaith ar systemau neu ba mor effeithiol yw rhaglenni.

**Y dystiolaeth** yw’r corff ymchwil, data a chyhoeddiadau wedi eu hadolygu gan gymhariaid sy’n creu’r sylfaen ar gyfer ymarfer gorau, gwneud penderfyniadau a safonau proffesiynol mewn maes.

**Efelychwyr** (hefyd ymarferwyr efelychu) yw’r bobl sy’n gyfrifol am gynllunio, darparu a gwerthuso ymarfer efelychu, gan gynnwys addysgwyr, hyfforddwyr, hwyluswyr, arbenigwyr cynnwys a chleifion, technegwyr a phobl efelychol.

**Adborth** yw’r wybodaeth a roddir i ddysgwr am eu perfformiad, gyda’r bwriad o’u helpu i wella neu gynnal eu perfformiad. Mae’n elfen o asesu a dibriffio.

**Fframwaith Llywodraethu** yw cyfres o strwythurau, prosesau a pholisïau a ddefnyddir i reoli, tywys a chadw trosolwg ar sefydliad neu raglen i sicrhau atebolrwydd, tryloywder a chyflawni ei amcanion.

**Technolegau Trochol** yw'r ystod eang o dechnolegau realiti estynedig (XR) sy'n cynnwys realiti rhithwir (VR), realiti ehangach (AR) a realiti cymysg (MR). Mae'r technolegau hyn yn defnyddio trochi digidol i atgynhyrchu neu greu amgylcheddau trochol, gan wella sut y mae unigolion yn rhyngweithio â'r byd go iawn.

**Addysg ryngbroffesiynol (IPE)** yw'r gweithgareddau addysgol sy'n cynnwys dysgwyr o fwy nag un maes proffesiynol, gyda'r dysgwyr yn dysgu ohonynt gyda, ac oddi wrth, ei gilydd.

**Meta-dibriffio** yw sgwrs ddysgu wedi'i hwyluso ar gyfer efelychwyr i fyfyrio ar eu harferion dibriffio.

**Methodoleg efelychu** yw'r term a ddefnyddir am y math(au) o efelychu a ddefnyddir fel rhan o'r weithgaredd efelychu, er enghraifft hyfforddwyr tasgau, pobl efelychol, realiti hybrid neu rithwir.

**Dylunio cyfranogol** yw dull o gynnwys amrywiol randdeiliaid fel defnyddwyr ac aelodau o'r gymuned yn y broses ddylunio'n weithredol i sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn ateb eu hanghenion. **Cyd-ddylunio** yw math penodol o ddylunio cyfranogol sy'n pwysleisio cydweithrediad rhwng yr holl randdeiliaid drwy gydol y broses ddylunio gyfan, o greu'r syniad i'w weithredu.

**Addysgeg** yw'r ddisgyblaeth sy'n ymwneud â theori ac ymarfer addysgu a dysgu. Mae'n cynnwys astudio theorïau dysgu, dulliau addysgu, dylunio cwricwlwm, asesu a pherthnasoedd dysgwr-addysgwr. Mewn efelychu, mae addysgeg yn cynorthwyo dylunio a darparu gweithgareddau i gefnogi dysgu effeithiol, ystyrlon.

**Pobl** yw unrhyw un sy'n rhan o'r efelychiad mewn rhyw ffordd fel dysgwyr, staff, efelychwyr, cyfranogwyr, cleifion, y cyhoedd ac aelodau lleyg.

**Diogelwch seicolegol** yw'r gred gyffredin gan gyfranogwyr efelychu ac efelychwyr ei bod yn iawn cymryd risg, mynegi syniadau a phryderon, codi llais, gofyn cwestiynau a chyfaddef camgymeriadau, i gyd heb ofni unrhyw ganlyniadau negyddol.

**Ymchwil** yw'r broses systematig o ymchwilio i gwestiynau'n ymwneud â dylunio, darparu a chanlyniadau rhaglen neu ymyriad efelychu, gyda'r nod o gynhyrchu gwybodaeth newydd a datblygu'r maes.

**Methodolegau Ymchwil** yw'r broses systematig a theoretig o ddadansoddi'r dulliau a gymhwysir i faes astudiaeth. Mae'n cwmpasu egwyddorion, strategaethau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i wneud ymchwil a chreu gwybodaeth newydd.

**Amgylchedd dysgu diogel** yw amgylchedd dysgu lle y mae dysgwyr yn teimlo'n seicolegol a chorfforol ddiogel i wneud penderfyniadau, gweithredu, a rhyngweithio.

**Pobl Efelychol (SP)** yw pobl go iawn sy'n chwarae rôl claf, staff neu aelod o deulu mewn efelychiad iechyd a gofal.

**Gweithgaredd Efelychu** yw digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau trochol sy'n atgynhyrchu sefyllfa neu broses go iawn er mwyn dysgu, asesu neu wella systemau.

**Amgylchedd Efelychu** yw'r gofod ffisegol neu rithiol y cyflawnir gweithgaredd efelychu ynddo. Gall hyn gynnwys canolfan efelychu bwrpasol, lleoliad clinigol, gofod realiti rhithwir, neu lwyfan ar-lein.

**Dull Systemau** yw methodoleg sy'n edrych ar sefydliad fel system gymhleth, ryng-gysylltiedig. Mewn efelychu, mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar ddeall sut y mae ffactorau lefel system yn dylanwadu ar ymddygiad unigolion a thimau, a sut y gellir defnyddio ymyriadau i wella'r system.

**Newid Systemau** yw dull newid holistig sy'n canolbwyntio ar newid y rhannau rhyng-gysylltiedig o system, gan gynnwys ei strwythurau, polisïau a'i harferion, i greu newid parhaol.

**Efelychu Trawsnewidiol (TfS)** yw term ymbarél am weithgareddau efelychu sydd ddim yn rhai addysgeg, hynny yw heb eu dylunio a'u strwythuro o gwmpas canlyniadau dysgu penodedig. Yn hytrach, defnyddir efelychu i gynhyrchu newid drwy arloesi, gwella, ymyrryd, cynnwys, adnabod, neu ddylanwadu (y 7 SBI yn Saesneg).

**Diffiniad o Efelychu Trawsnewidiol:** *Offeryn neu ddull o drawsnewid iechyd a gofal drwy ddealltwriaeth, mewnwelediad a dysgu cyfunol.*

.

# Dogfennau Cyfeiriol


1. Diaz-Navarro C, Laws-Chapman C, Moneypenny M, Purva M. The ASPiH Standards – 2023: guiding simulation-based practice in health and care. Ar gael o'r Association for Simulated Practice in Healthcare (ASPiH) neu'r International Journal of Healthcare Simulation.
2. Cheng A, Eppich W, Kolbe M, Meguerdichian M, Bajaj K, Grant V. A Conceptual Framework for the Development of Debriefing Skills: A Journey of Discovery, Growth, and Maturity. Simul Healthc. 2020 Chwe;15(1):55-60. doi: 10.1097/SIH.0000000000000398. PMID: 31743312.
3. Nestel D & Bearman M. Theory and Simulation-Based Education: Definitions, Worldviews and Applications, Clinical Simulation in Nursing,11, 8, 2015, P 349-354, ISSN 1876-1399, https://doi.org/10.1016/j.ecns.2015.05.013.
4. Shah, RK & Campus S. Conceptualizing and Defining Pedagogy. Journal of Research and Methods in Education. 2021. 11 (1), 6-29. DOI:10.9790/7388-1101020629
5. Weldon, S., Buttery, A., Spearpoint, K., & Kneebone, R. Transformative forms of simulation in health care – the seven simulation-based 'I's: a concept taxonomy review of the literature. International Journal of Healthcare Simulation. 2023. DOI: 10.54531/tzfd6375.
6. Mitchell AA & Ivimey-Cook ER (2023) Technology-enhanced simulation for healthcare professionals: A meta-analysis. Front. Med. 10:1149048. doi: 10.3389/fmed.2023.1149048
7. Eppich, W., Reedy, G. Advancing healthcare simulation research: innovations in theory, methodology, and method. Adv Simul 7, 23 (2022). https://doi.org/10.1186/s41077-022-00219-y
8. Morgan W. McCall, Jr., Michael M. Lombardo, (1982) Using Simulation for Leadership and Management Research: Through the Looking Glass. Management Science 28(5):533-549. https://doi.org/10.1287/mnsc.28.5.533

## Cydnabyddiaeth

Dymunwn gydnabod yn ddiolchgar y cyfraniadau a'r cymorth amhrisiadwy a gawsom gan ein sefydliadau partner, mae eu hymrwymiad a'u cydweithrediad wedi bod yn hanfodol i ddatblygiad a llwyddiant y gwaith hwn.